

Cyngor Cymuned Llanllwchaearn Community Council
Haulfan, Llanarth, Ceredigion. SA47 0NH
Clerc/Clerk: Shan Gwyn Phone/Ffon: 01545 580818

Cofnodion Cyfarfod 18.03.2021 - drwy 'Zoom'

Yn Bresennol

Y Cyngorwyr Gill Hearne, Meleri Richards, Gareth Ioan, Dai Morgan, Silyn Roberts, Mel Jones a'r clerch.

Ymddiheuriadau

Derbyniwyd ymddiheuriadau oddi wrth y Cyngorwyr Euros Lloyd a Gareth Lloyd.

Cofnodion

Cynigiwyd cofnodion mis Chwefror yn gywir gan y Cyng Meleri Richards ac ategwyd hyn gan y Cyng Gareth Ioan.

Materion yn Codi o'r Cofnodion

Cynllun mesur cyflymdra traffig Mae dros 20 o ymatebion wedi eu derbyn i'r ymgynghoriad ynglyn a gosod palmant Pentre'r Bryn. Mae'r mwyafrif yn ymatebion ffafriol. Mi fydd y clerch yn dilyn i fyny ein cais am gael Swyddog o'r Cyngor Sir i fynychu cyfarfod rhithiol. Deallir hefyd fod y cerbyd 'Gan Bwyll' wedi bod yn weledol yn y pentref.

Grantiau Derbyniwyd llythyron o ddiolch oddi wrth Ambiwlans Awyr Cymru ynghyd a Beiciau Gwaed Cymru.

Coed ger y man chwarae Wnaeth y Cyng Gareth Ioan adrodd fod Dylan Jones bellach wedi cwblhau'r gwaith o dorri'r goed o amgylch y maes chwarae.

Swydd y Clerch Mae un ymgeisydd wedi dangos diddordeb yn y swydd hyd yma. Mae'r dyddiad cau ar y 9.4.21 ac felly mi fydd yn rhaid aros hyd ar ôl hyn cyn cysylltu gyda'r unigolyn..

Adroddiad Ariannol

Derbyniwyd adroddiad ariannol mis Chwefror yn gywir a rhoddwyd caniatád i dalu'r canlynol:-

Shân Gwyn	£852.05
Un Llais Cymru	£164.00

Ceisiadau Cynllunio

A210118 8 Pencnwc Isaf, Cross Inn – Estyniad llawr lefel cyntaf, ynghyd a ychwanegiad o 'Dormer' – Dim gwrthwynebiad.

Unrhyw Fater Arall

Gwybodaeth a Technoleg a'r Gymraeg Wnaeth y Cyng Gareth Ioan ddiweddarau'r Cyngor ynglyn a'r adnodd 'Helo Blod' ar gyfer defnyddio mwy o'r Gymraeg